# MORGAN, JOHN JAMES (1870 - 1954), gweinidog (MC) ac awdur

**Enw:** John James Morgan
**Dyddiad geni:** 1870
**Dyddiad marw:** 1954
**Priod:** Jeanetta Morgan (née Thomas)
**Rhiant:** Jane Morgan (née Evans)
**Rhiant:** David Morgan
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog (MC) ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Ganwyd ym Mawrth 1870 yng Nglynberws, Ysbyty Ystwyth, Ceredigion, mab Dafydd Morgan ('Y Diwygiwr') a Jane ei briod. Addysgwyd ef yn ysgol fwrdd Ysbyty Ystwyth; ysgol Ystradmeurig, ysgol Thomas Owens, Aberystwyth; Coleg Aberystwyth a Choleg Trefeca. Ordeiniwyd ef yn 1894, a bu'n gweinidogaethu yn y Bont-faen, Morgannwg (1893-95) a'r Wyddgrug (1895-1946). Priododd 1895, Jeanetta Thomas, Llancatal, Bro Morgannwg. Ar ôl ymddeol aeth i fyw at ei ferch yn Irby, sir Gaer, ac yno y bu farw 23 Ionawr 1954.

Ymhyfrydodd mewn llenydda ar hyd ei oes, a cheir ei gynhyrchion - o nodwedd hanesyddol - yng nghylchgronau'i enwad. Yr oedd ganddo'r ddawn i gasglu dywediadau pert a bachog a hynodion blaenoriaid a phregethwyr. Cyhoeddodd nifer o gofiannau defyddiol iawn: *Hanes Dafydd Morgan a Diwygiad '59* (1906); *Cofiant Edward Matthews* (1922); *Cofiant Evan Phillips* (1930); a *Hanes Daniel Owen* (1936). Yn niwedd ei oes cyhoeddodd ei hunangofiant a'i atgofion, sy'n hynod o ddiddorol, yn dair o gyfrolau (1948, 1949 ac 1953) dan y teitl *A welais ac a glywais*.

## Awdur

**Y Parchedig Gomer Morgan Roberts**, (1904 - 1993)

## Ffynonellau


*Blwyddiadur y Methodistiaid Calfinaidd*, 1955, 247-48

*Y Goleuad*, 10 Mawrth 1954

ei gofiant i'w dad a'i hunangofiant


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20751812

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu